# Cyngor Sir y Fflint

# Polisi’r Gymraeg yn y Gweithle

| | |
|---|---|
| Perchennog y ddogfen ar gyfer adolygu | Ymgynghorydd Polisi Strategol |
| Dyddiad ei roi ar waith | 27.10.2017 |
| Dyddiad y diwygiad diwethaf | |
| Fersiwn | |
| Dyddiad yr adolygiad nesaf | Hydref 2021 |

# Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithwyr Cyngor Sir y Fflint a bydd yn cefnogi'r Cyngor i gwrdd â'i ddyletswyddau statudol fel y nodir yn Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o hunaniaeth ddiwylliannol Sir y Fflint, mae'n rhan o'n treftadaeth a'n dyfodol. Rydym wedi cydnabod pwysigrwydd cynnig dewis iaith i'n cwsmeriaid ac rydym wedi ymrwymo i drin y ddwy iaith, Cymraeg a Saesneg yn gyfartal. Rydym yn darparu gwasanaethau i'r bobl fwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau, lle mae cael gafael ar wasanaethau yn iaith gyntaf unigolyn yn arbennig o bwysig. Mae defnyddio'r Gymraeg yr un mor ddilys yn fewnol ac ydyw wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus. Bydd annog diwylliant sydd yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi defnyddio Cymraeg yn fewnol yn cyfrannu at gyflawni gwasanaethau o ansawdd uchel yn Gymraeg a Saesneg.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw:

i) hyrwyddo agweddau positif ac annog gweithwyr i ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

ii) cynyddu nifer y gweithwyr Cymraeg eu hiaith a darparu cyfleoedd i weithwyr sydd eisoes yn rhugl yn y Gymraeg ac i'r rheiny sy'n dysgu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac yn eu gwaith.

iii) annog amgylchedd waith dwyieithog lle mae gan weithwyr y rhyddid a chefnogaeth i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r polisi yn berthnasol i weithwyr, gwirfoddolwyr ac aelodau etholedig.

| **Hyrwyddo agweddau positif ac annog gweithwyr yn ein gweithlu i ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.** |
|---|
| • Dathlu llwyddiannau dysgwyr Cymraeg trwy wobrwyo "Dysgwr Cymraeg y flwyddyn" fel rhan o Wobrau Dysgu a Datblygu Sir y Fflint<br>• Darparu adran ar Infonet i hyrwyddo diwylliant Cymru ac adnoddau i gefnogi dysgwyr ac i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn allanol.<br>• Hyrwyddo "diwrnod dwyieithog o'r wythnos" i annog gweithwyr i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, beth bynnag yw eu lefel, yn y gweithle.<br>• Bydd Diwrnod Shwmae/ Su'mae, dydd Gŵyl Dewi a digwyddiadau eraill yng nghalendr Cymru yn cael ei ddathlu yn y gwaith ac yn y gymuned.<br>• Hyrwyddo swyddogaeth Rhwydwaith Y Gymraeg a datblygu cynllun gweithredu i weld cynnydd yn eu gwaith.<br>• Bydd meini prawf ar swyddi nad ydynt yn cael eu hasesu i fod yn rhai Cymraeg hanfodol yn cynnwys gofyniad safonol: **Bod ag empathi at y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.** |

| Cynyddu'r nifer o weithwyr Cymraeg eu hiaith a darparu cyfleoedd i weithwyr sydd yn rhugl yn y Gymraeg eisoes a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac yn eu gwaith |
|---|

**Recriwtio**

- Bydd gofynion iaith ar gyfer swyddi newydd neu swyddi presennol yn cael eu hasesu a bydd cofnodion yn cael eu cadw o'r asesiad hwnnw.
- Bydd y Gymraeg yn cael ei hystyried yn sgil werthfawr wrth recriwtio a bydd hyn yn cael ei hyrwyddo ar wefan y Cyngor ac mewn hysbysebion swyddi.
- Bydd swyddi gwag yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog a bydd swyddi sydd yn Gymraeg hanfodol yn cael eu hysbysebu yn y cyfryngau Gymraeg.
- Bydd ymgeiswyr am swyddi yn gallu cyflwyno eu cais yn Gymraeg a gallant ddewis defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliadau.
- Bydd disgwyl i brentisiaid fynychu hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg.

**Gweithiwyr Newydd**

- Bydd cyfarfod sefydlu yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg.
- Bydd gweithwyr newydd sydd heb unrhyw sgiliau Cymraeg yn mynychu cyrsiau undydd Cymraeg yn y Gweithle fel rhan o'u cyfnod sefydlu, er mwyn iddynt ddysgu sgiliau Cymraeg sylfaenol.
- Bydd gweithwyr newydd yn cael dewis derbyn eu contract yn Gymraeg ac yna bydd rheolwyr yn gwneud trefniadau i'r contractau fod ar gael yn Gymraeg.

**Gweithwyr Presennol**

- Bydd y Cyngor yn darparu sesiwn "Panad a Sgwrs" mewn lleoliadau ar draws y sir i gynnig cyfleoedd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg gael defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn awyrgylch gefnogol y tu allan i sesiynau dysgu ffurfiol.
- Bydd ystod o gyrsiau hyfforddi iaith Gymraeg sydd ar gael yn cael eu hyrwyddo a'u hannog yn weithredol.
- Bydd gweithwyr yn diweddaru eu hasesiad sgiliau iaith Gymraeg yn rhan o'u proses arfarnu. Bydd rheolwyr yn darparu copïau papur o'r asesiad i weithwyr sydd heb fynediad i iTrent.
- Bydd asesiad o'r angen am hyfforddiant sgiliau iaith Cymraeg yn cael ei gynnal yn ystod yr arfarniad.
- Bydd yr archwiliad blynyddol o sgiliau iaith Gymraeg yn cael ei ddefnyddio i lunio strategaeth hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg.
- Bydd rheolwyr yn cefnogi gweithwyr sydd yn gofyn am hyfforddiant iaith Gymraeg. Rhoddir amser i weithwyr fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg fel y byddant ag unrhyw hyfforddiant arall sy'n gysylltiedig â gwaith.
- Bydd rheolwyr yn cadw cofnod o weithwyr sydd yn dymuno derbyn gohebiaeth busnes wedi'i gyfeirio'n bersonol yn Gymraeg.
- Gall gweithwyr ddewis iaith (Cymraeg/Saesneg) pan fyddant yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â chyflogaeth, mae hyn yn cynnwys gohebiaeth

a chyfarfodydd sydd yn ymwneud ag ymchwiliadau i faterion cwynion a disgyblaethol.

- Bydd holl weithwyr yn cael mynediad at feddalwedd Cysill a Cysgeir, gramadeg Cymraeg, gwiriwr sillafu a geiriadur.
- Bydd egwyddor “Cynnig Gweithredol” yn cael ei weithredu ar draws holl wasanaethau’r Cyngor.
- Bydd gweithwyr sydd mewn swyddi gyda’r cyhoedd yn cael cefnogaeth i fynychu hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg.

**I annog amgylchedd waith dwyieithog lle mae gan weithwyr y rhyddid a chefnogaeth i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg**

- Bydd holl gyrsiau hyfforddi i weithwyr a ddarperir neu a gomisiynir gan y Cyngor yn cael eu hagor a’u cloi yn ddwyieithog.
- Bydd templed cyflwyniad PowerPoint y Cyngor yn cynnwys ymadroddion dwyieithog i agor a chloi digwyddiadau.
- Anogir gweithwyr i ddefnyddio cyflwyniadau dwyieithog.
- Bydd cyfarfodydd yn cael eu hagor a’u cloi yn ddwyieithog (mae brawddegau ar gyfer cyfarfodydd i'w gweld yn Atodiad 1).
- Bydd pob siaradwr Cymraeg yn cael cortynnau gwddf a bathodynnau sy’n dangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg, ac anogir gweithwyr i wahodd unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg (drwy’r llofnod e-bost).
- Bydd holl arwyddion a hysbysiadau mewn swyddfeydd, storfeydd ac adeiladau eraill y Cyngor yn ddwyieithog - rhaid i’r testun Cymraeg gael ei leoli i gael ei darllen yn gyntaf, hy, ar y chwith neu uwch ben y Saesneg.
- Bydd hafan yr Infonet ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd llofnod e-byst a negeseuon ‘ddim yn y swyddfa’ (mewnol ac allanol) yn ddwyieithog.
- Bydd cyfeiriadau e-bost yn nodi a ydi’r unigolyn yn siarad Cymraeg neu a ydynt yn dysgu Cymraeg drwy ddefnyddio troednodyn e-bost Iaith Gwaith.
- Bydd gweithwyr yn gallu cael dogfennau sy’n ymwneud ag arfarnu, gwyliau blynyddol, absenoldeb a gweithio’n hyblyg yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.
- Bydd polisïau AD penodol fel sy’n ofynnol yn unol â Safonau’r Gymraeg yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ar Infonet.
- Bydd hyfforddiant yn Gymraeg ar gael ar:
    - Recriwtio;
    - Rheoli Perfformiad;
    - Hyfforddiant Sefydlu;
    - Delio gyda’r cyhoedd; a
    - Iechyd a Diogelwch
- Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn Gymraeg ar ddefnyddio’r Gymraeg yn effeithiol mewn:
    - Cyfarfodydd;
    - Cyfweliadau; a
    - Gweithdrefnau cwyno a disgyblu
- Bydd rheolwyr yn defnyddio hyfforddiant ar ddefnyddio’r Gymraeg yn eu swydd.

## Gweithredu

Mae gweithredu'r polisi hwn yn llwyddiannus yn dibynnu ar bob unigolyn a rheolwr yn cymryd cyfrifoldeb personol wrth ddefnyddio'r polisi hwn yn ymarferol. Mae rhagor o wybodaeth sydd yn cynnig arweiniad am Safonau'r Gymraeg yn y gwaith ac wrth gyflawni gwasanaeth ar gael ar yr Infonet. Bydd y polisi'n cael ei weithredu yn rhan o Cynllun Gweithredu Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor.

## Monitro ac Adolygu

Bydd y Polisi'n cael ei adolygu bob hyn a hyn i sicrhau ei fod yn gyson â Safonau'r Gymraeg a deddfwriaeth bresennol. Mae camau gweithredu a mesurau wedi cael eu hymgorffori o fewn system rheoli perfformiad y Cyngor a bydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Cabinet yn flynyddol a phan fo angen. Bydd adroddiad a fydd yn disgrifio cynnydd o ran cwrdd â Safonau'r Gymraeg yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol; bydd y wybodaeth yn cynnwys:

- Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a gafodd eu categoreiddio yn swyddi lle'r oedd:

  i) sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol
  ii) angen dysgu Cymraeg ar ôl iddynt gael eu penodi
  iii) Cymraeg yn ddymunol
  iv) nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol

- Nifer a chanran y gweithwyr sydd wedi cwblhau'r Archwiliad o Sgiliau Iaith Gymraeg.
- Proffil o sgiliau Cymraeg gweithwyr.
- Nifer y gweithwyr sydd yn mynychu hyfforddiant sgiliau Cymraeg yn ôl lefel yr hyfforddiant.
- Nifer a chanran y gweithwyr sydd wedi cwblhau hyfforddiant e-ddysgu ymwybyddiaeth iaith Gymraeg.
- Nifer y gweithwyr a fynychodd gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Caiff cynnydd ei fonitro trwy Dîm y Prif Swyddog, y Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol.

**Atodiad 1**

**Brawddegau defnyddiol mewn cyfarfodydd**

| | |
|---|---|
| **Croeso'r i'r cyfarfod** | Welcome to the meeting |
| **Ymddiheuriadau** | Apologies |
| **Gai' i gyflwyno…?** | May I introduce…? |
| **Dan ni wedi derbyn ymddiheuriadau gan...** | We have received apologies from… |
| **Gadewch i ni fynd trwy gofnodion y cyfarfod diwethaf** | Let's go through the minutes of the last meeting |
| **Oes' na faterion yn codi**? | Are there any matters arising? |
| **Yr eitem gyntaf ar yr agenda…** | The first item on the agenda |
| **Yr eitem nesaf** | The next item |
| **Gohebiaeth** | Correspondence |
| **Adroddiadau** | Reports |
| **Diolch am yr adroddiad** | Thanks for the report |
| **Unrhyw fater arall** | Any other business |
| **Oes gennoch chi gwestiynau?** | Do you have questions? |
| **Dyddiad y cyfarfod nesa'** | Date of next meeting |
| **Diolch i chi am ddod** | Thank you for coming |